

# Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 149

Rhif 20

Mai 12, 2016

50c.

## Drws Agored



*Elmer Jenkins - yr unig ddyn yn y rhes flaen - a chriw Drws Agored, Rhydaman*

Cafodd criw Drws Agored y pleser o groesawu Elmer Jenkins, Cwm Hyfryd, Patagonia i'w mysg ddiwedd Ebrill. Roedd Elmer wedi dod gyda Hazel Charles Evans, un a fu yn dysgu yn y Wladfa. Roedd teulu Elmer wedi ymfudo o Lwydcoed ger Aberdâr ar y llong 'Mimosa' gyda'r criw cyntaf o Gymru i'r Wladfa. Mae e'n siarad Cymraeg yn rhugl er ei fod ef yn bedwaredd genhedlaeth o'r teulu sydd wedi eu geni a'u magu yn y Wladfa.

Rydym ni fel criw Drws Agored yn cwrrd yn wythnosol am banded, clonc a myfyrdod byr. Nid oes tâl mynediad ond mae nifer yn rhoi cyfraniad am eu lluniaueth ac o ganlyniad rydym yn ystod y pymtheg

mlynedd olaf wedi cyfrannu dros £10,000 tuag at achosion elusenol fel Ambiwllans Awyr Cymru, Marie Curie, Ffrindiau Ysbyty Dyffryn Aman, Mudiadau Cancr a Strôc lleol, Cymorth Cristnogol ac ati. Beth am droi mewn atom ar fore Iau yn Neuadd Gellimanwydd, Rhydaman rhwng 10.00 a 11.30 o'r gloch? Cewch groeso mawr. Y llynedd cafwyd Bore Coffi arbennig tuag yr elusen Macmillan ac fe godwyd dros £700. Eleni byddwn yn cynnal Brecwast Mawr Drws Agored fore Iau, Mai 19 i godi arian i Gymorth Cristnogol. Felly os am frechwast da galwch yn Neuadd Gellimanwydd, Rhydaman rhwng 7.30 a 11.30 o'r gloch.

## EGLWYS ANNIBYNNOL Y BRITHDIR

### RHYFEDDOD A DIOLCH

Testun rhyfeddod a diolch ddaeth â thyrfa gref iawn o bobl o ddalgylch eang i Neuadd y Brithdir ger Dolgellau nos Lun, Ebrill 25ain, 2016. Y testun cyntaf o ryfeddod a diolch oedd i Dduw ei hun am adferiad iechyd Huw Jones Edwards, Tyddyn Dderwen, Brithdir wedi cyfnod o waeledd. Yr ail destun rhyfeddod a diolch oedd mynegi, gyda thristwch, ei awydd i ymddeol fel Ysgrifennydd Eglwys Annibynnol y Brithdir, ond iddo gyflawni'r gwaith am gyfnod o chwe deg pedwar (64) o flynyddoedd, ac ni fedrai pawb ond rhyfeddu a diolch i Dduw am y fath gyfnod o wasanaeth, a gwasanaeth effeithiol iawn hefyd.



*Y bytholwyrdd 96 oed Huw Edwards yn derbyn yr englyn fframiedig o law ei weinidog.*

## Y Parchg Shem Morgan

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth y Parchg Shem Morgan, Casnewydd, yn 94 oed. Bu ef yn weinidog i'r Arglwydd yn Aberhonddu, Trelewis, Nelson a Bargod ac am gyfnod yn Ysgrifennydd Cartrefi Dr. Barnado yng Nghymru. Cydymdeimlwn gyda'i deulu yn eu galar a'u hiraeth gan weddio y bydd yr Arglwydd byw, concwerwr angau yn eu cysuro. Cynhelir ei angladd yn y Tabernacl, Llanfaches ar y 18ed o Fai am 12.30 p.m.

## Aelodau o'r Orsedd



Llongyfarchiadau twymgalon i'r Parchg Gwyn Elfyn, Drefach ac Elin Maher, Casnewydd ar gael eu henwebu i gael eu derbyn yn aelodau o'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau eleni.

### CEFN I WEINIDOGION

Yn y flwyddyn 1952 y'i hetholwyd, a hynny yn niwedd cyfnod gweinidogaethol y Parchg Caradog Williams fel gweinidog ar eglwysi'r Brithdir, Rhyd-y-main a Thabor. Daeth ef i'r cych yn 1940 ac aros yno hyd 1955. Braf iawn oedd cael cwmni Geraint Jones Lewis, Llanbedr Pont Steffan, yn y cyfarfod ac yntau'n hanu o linach Mrs Williams. Yn 1956, ordeiniwyd a sefydlwyd y Parchg John Watkin yn weinidog ar yr un eglwysi, ac arhosodd hyd 1964 wedi sicrhau gwraig, Catherine, merch yr Hengwrt, Rhyd-y-main. Yn 1965 ordeiniwyd a sefydlwyd y Parchg Gareth Morgan Jones eto'n weinidog ar yr un eglwysi, ac arhosodd yntau hyd 1969. Yn 1970 rhoddwyd galwad i'r Parchg Meurwyn Williams o Detroit cyn iddo yntau symud yn 1973 i Soar, Pen-y-groes. Y Parchg Dorian Samson oedd y

# EGLWYS ANNIBYNNOL Y BRITHDIR - *parhad o'r claw*

gweinidog nesaf a ddaeth i'r cylch yn 1976 yn fachgen ifanc o'r coleg yn Abertawe ac a arhosodd hyd 1980 cyn i fachgen ifanc arall o'r un Coleg, y Parchg Iwan Vaughan Evans ddod i'r cylch yn 1981 ac aros hyd 1985. Teg nodi erbyn 1976 i eglwysi Libanus, Ganllwyd a'r Ffrwd, Llanfachreth ymuno yn yr ofalaeth. Yn 1987 ordeiniwyd y Parchg Iwan Llewelyn Jones a arhosodd yn y cylch hyd 1993 gan ychwanegu eglwys Salem, Corris at yr ofalaeth yn 1991. Bu'r cylch heb weinidog hyd 2014 pan ddaeth Iwan Llewelyn Jones yn ôl i weinidogaethu. Bu Huw Edwards yn gefn i bob un o'r gweinidogion a enwyd a hynny mewn ffordd dawel, ddi-lol ond cadarn fel craig, ac yn ffrind cywir i bob un ohonynt a'u teuluoedd.

## Y CYFARFOD DIOLCH

Fel ag y nodwyd, trefnwyd cyfarfod diolch heb iddo ef wybod yn union beth oedd ar y gweill. Yr unig rybudd a gafodd oedd bod yn Neuadd y Brithdir am saith o'r gloch ar y dyddiad uchod! Llywydd y cyfarfod oedd Iwan Llewelyn Jones a ddarllenodd gyfarchion oddi wrth y Parchedigion Gareth Morgan Jones, Dorian Samson (cyn-weinidogion), Anita Ephraim, Ffestiniog; Geraint Tudur (Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg); Carys Williams, Caerdydd (gweddw'r Parchg Meurwyn Williams); Cyfundeb Annibynwyr Meirion; Mary Wynne Jones, Dolgellau a Huw Dylan, Treforys (mab Tecwyn ac Eirwen Owen, Dolgellau) a gyfansoddodd englyn trawiadol iawn i'r amgylchiad.

Braf iawn oedd cael cwmni Catherine Watkin, Llandudno, gweddw'r Parchg John Watkin, yn y cyfarfod, a galwyd arni hi i ddweud gair a oedd yn air eithriadol o gynnes o werthfawrogiad o gyfraniad a chyfeillgarwch Huw ar hyd y blynyddoedd. A chawsom gwmni'r Parchg Iwan Vaughan Evans a'i briod Barbara, o Lanelli. Tystiodd Iwan yntau i gefnogaeth Iwyr Huw Edwards iddo ef fel gweinidog, ac am y ffyrdd bonheddig a oedd ganddo o roi gweinidogion ifanc ar ben ffordd gan fod a gair fyddai'n codi'r gwan yn gyson. Dyna hefyd brofiad Iwan Llewelyn wrth iddo yntau dystio i ysbryd braf a diffuant Huw.

## AMRYDDAWN

Llwyddodd y tri siaradwr ynghyd â'r rhai a'i cyfarchodd drwy lythyr i sicrhau'r gynulleidfa fod Huw Jones Edwards yn wr o allu anarferol iawn. Y mae'n hanesydd praff a hanes lleol a lletach ar flaenau'i fyseidd, yn siaradwr huawdl, yn llenor coeth ac yn englynwr cywir a sicr ei drawiad, a bu'n ysgrifennydd diwyd i'r eglwys, yn athro ysgol Sul am flynyddoedd ac yn wr a berchid gan bawb, o bob oed.

Pan ofynnwyd iddo pa un oedd ei hoff emyn a thon, yr ateb a gafwyd oedd 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' gan Ann Griffiths ar y dôn gyfarwydd 'Cwm Rhondda', ac yn wir gallai Huw ddadansoddi'r emyn yn wirioneddol afaelgar. Cariad Duw fu ei gynhaliath ar hyd ei oes. O gofio hynny, mentrwyd gofyn i blant yr eglwys ganu'r dôn 'Cwm Rhondda' i gyfeiliant y gweinidog, a

rhoesant ddatganiad cofiadwy. Ymunodd y gynulleidfa yn y pennill olaf gan ail a threblu'r canu 'O am aros yn ei gariad ddyddiau f'oes.'

Wedi hynny cawsom y fraint o gyflwyno rhodd i Huw o englyn o waith Tecwyn Owen, Dolgellau, wedi'i ysgrifennu a'i fframio'n hardd gan Enid Morris, Ganllwyd, a dyma'r englyn godidog o dan y teitl 'Y DDERWEN' (Tyddyn Dderwen - enw'i gartref):

Roedd dur yn y blaguryn - ac odiaeth  
O gadarn ei wreiddyn,  
A rhyw ogwydd i'r brigyn  
Yn bywiocau doniau'r dyn.

A do, gofalodd Eirian Thomas, un o rieni'r eglwys am gacen ddatlu hyfryd dros ben ac fe'i torrwyd gan Huw Jones Edwards. Daeth pawb wedyn o gwmpas y barddau i fwynhau gwledd ardderchog a baratowyd gan gyfeillion eglwysi'r Brithdir a Thabor. Braint fu cael cynnal y noson i ryfeddu a diolch i Dduw am fywyd un y mae gennym oll feddwl y byd ohono, a diolchodd yntau yn ei ddull unigryw bonheddig am yr hyn a drefnwyd. Daeth cynrychiolaeth gref o'r teulu ynghyd a diolchwyd ar eu rhan gan Gwilym Edwards, Yr Wyddgrug - nai i Huw.

## TROSLWYDDO'R BATON

Hyfrydwch mawr yw cyhoeddi mai Nia Wyn Jones, Fronalchen yw Ysgrifennydd newydd yr eglwys - gwraig a mam ifanc. Yn wir gallwn ymfalchïo yng nghyfartaledd ifanc aelodaeth y Brithdir a Thabor. Dymunwn yn dda iddi.

“Mae'r Iesu eto'n fyw  
A'r gwaith sydd dan ei law.”

Iwan Llewelyn

## Mynegiannau Newydd o'r Eglwys - *parhad o'r cefn*

yw'r patrwm a welwn yn yr eglwys Fore a'r disgyblion cynharaf? Ac yn lle unigolion yn cyflawni cenhadaeth ar ran yr eglwys dadleuodd mai'r patrwm arferol yn yr Eglwys Fore oedd bod cenhadaeth yn rhywbeth a wnaed gan bobl yn lluosog, ac nid fel unigolion. Yn union fel y bu Iesu farw y tu allan i furiau'r dre, mae galw arnom ninnau yn ein hoes ni i beidio â cheisio dal gafael ar y canol- yn wir cawn ein galw gan yr atgyfodiad i fod yn bobl sy'n fodlon marw er mwyn ennill bywyd yn ôl.

Yn lle ofni'r cyrion, dylem feddiannu'r cyrion a'u coleddu.

Fel y gwelsom, roedd llawer o feddwl y tu ôl i'r ymdrech i greu Eglwys aeddfed i genhadu, i hybu mynegiannau newydd o'r eglwys.

Cwestiwn oedd yn blino rhai ohonom oedd hyn. I ba raddau roedd y symudiad 'i'r cyrion' a ddisgrifiwyd ganddo mewn

gwirionedd yn fynegiant diwinyddol o leoliad cymdeithasegol cyfoes yr eglwys yn Ewrop? Hynny yw, dyna lle rydym ni, ond nid dyna lle rydym eisïau bod mewn gwirionedd. Ac er ein hannog i lawenhau yn ein statws ymylol tybed yn y derbyniad o'n statws presennol bod yna ddyhead, neu awydd i ddychwelyd yn ôl i'r canol. Tacteg dros dro fyddai derbyn yr egwyddor- nid coleddu'n llawen a pharhaol ein lleoliad er mwyn parhau i fynegi'n ffydd fel un llais ymhlith lawer yn y sgwâr cyhoeddus.

Cwestiwn arall gwirioneddol heriol yw i ni yng Nghymru yw hyn. I ba raddau yr ydym fel cynulleidfaoedd Cymraeg hyd yn oed yn ymgodymu gyda'r cwestiynau hyn gydag unrhyw weledigaeth neu ymdrech i greu cyrff cenhadol priodol ar gyfer y dyfodol? Beth fyddai ffurf eglwys oedd wedi ei ffurfio ar gyfer cenhadaeth yn ein cenhedlaeth ni?

## EGLWYS ANNIBYNNOL BETHESDA, Y TYMBL

Cynhelir

### CYFARFOD SEFYDLU

**Y Parchedig Gwyn Elfyn  
Lloyd Jones B.A.**

*yn Weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist  
yn yr Eglwys uchod*

**Dydd Sadwrn, Mai 14eg, 2016  
am 2.00 o'r gloch**

Llywydd:

**Y Parchedig Emyr Gwyn Evans B.D.**

**Pregethir gan y Parchedig  
Ddr. R. Alun Evans B.A., Ph.D.**

**Croeso cynnes i bawb  
Gweinir lluniaeth ysgafn wedi'r oedfa**

## Barn Annibynnol

### Capel a chymuned – yr agendor sy'n tyfu

Mae pob un ohonom ni'n blant i'n cefndir, ac i raddau helaeth ry'n ni'n byw ein bywydau o fewn terfynnau sydd yn gyfarwydd i ni o oedran ifanc iawn. Mae i bob magwraeth ei hieithwedd unigryw, gyda defodau penodol a phatrymau byw sy'n adlewyrchu'r fagwraeth honno – boed hi'n fagwraeth capel, eglwys, clwb rygbi neu mewn ysgol farchogaeth. O fewn magwraeth capel, gwyddom yn ifanc beth yw symbolaeth cymuned, ystyr bedydd a phwrpas Cymorth Cristnogol. Rwy'n tybio y bydd y rhan fwyaf ohonom ni wedi profi caredigrwydd a haelioni pobl at gyd-ddyn ac am gyfraniad iachus ein capeli i'n bywydau ni fel unigolion ac i'n cymodgaethau dros yr oesoedd. Fodd bynnag, yr hyn sydd yn dod yn gynyddol amlwg yw'n methiant fel eglwysi i gysylltu'n iachus gyda'r gymuned ehangach, ac o ganlyniad mae cam-argraffiadau cyson gan bobl o'r hyn sydd yn mynd ymlaen mewn capel cyffredin, mewn stryd gyffredin, mewn pentref cyffredin. Mae ymweliadau trwch y boblogaeth gydag addoldy yn mynd yn llai aml, ac felly mae'r argraffiadau a greir gan eu hychydid ymweliadau yn rhai a briodolir i'n traddodiad cyfan. Am hyn, rwy'n gynyddol ddi-amynedd gyda'r hyn a glywaf am brofiadau rhai ffrindiau wrth iddyn nhw fynychu priodasau neu angladdau mewn capeli dros y misoedd diwethaf.



Delwedd:  
walesonline.co.uk

#### Cam ddefnyddio Angladd a Phriodas

Deirgwaith yn ystod y tri mis diwethaf, fe'm siomwyd gan ymateb ffrindiau di-eglwys i'w profiadau wrth fynychu angladdau a phriodasau. Bu dau grŵp o ffrindiau mewn angladdau mewn capeli Anghydfurfiol, ac un lot mewn priodas o fewn yr un traddodiad. Adroddon nhw i gyd am y profiad anghynnes iawn o fod yn bresennol yn yr achlysuron. Gyda'r tri chriw fe'u gwelwyd gan y pregethwyr fel 'captive audience' ac fel maes cenhadol i werthu dogma Gristnogol iddyn nhw. Yn y ddau wasanaeth angladdol, gwelodd y pregethwyr hi'n briodol i ddefnyddio'r achlysur i rybuddio'r gynulleidfa y byddai eu cartref tragwyddol yn un annymunol o gynnes, oni bai eu bod yn rhoi eu bywydau i'r Iesu. Yn y briodas, aeth y pregethwr allan o'i ffordd i hysbysu'r gynulleidfa gyfan fod croeso iddyn nhw ddod i flaen y capel i dderbyn Iesu yn y fan a'r lle. Petaen nhw'n gwneud hynny (gan ddod i sefyll drws nesa i'r briodferch a'u

gw'r newydd) byddai'n ddatganiad pysicach hyd yn oed na'r briodas oedd yn cael ei chynnal y diwrnod hwnnw. Tybed beth oedd barn y pâr ifanc am y fath awgrym?

Rwy'n rhyfeddu fod eglwysi yn credu fod hyn yn ddefnydd priodol o achlysur mor ddwys i deuluoedd, a'i fod yn ymateb rhesymol i'r ymddiriedaeth a roddir yn yr eglwys gan deulu'r ymadawedig neu'r pâr sy'n priodi.

#### Ceidwad y Farn?

Tua chwarter canrif yn ôl fe gymeron ni ein grŵp pobl ifanc i *Spring Harvest* yn Minehead. Ar noson gyntaf yr Ŵyl fe aeth yr ifanc i'w gweithgaredd oed-briodol. Yn hwyr y noson honno roedd y drafodaeth nôl yn ein gwesty yn danbaid dros goffi wrth i'r criw adrodd fod y siaradwr gwâdd wedi eu rhybuddio am ganlyniadau tragwyddol cael eu barbeciwio yn uffern, oni bai eu bod yn rhoi eu bywydau i Iesu cyn marw. Ceisiwyd eu perswadio fel criw y dylen nhw gyflwyno'u bywydau yn y fan a'r lle, rhag ofn i fws eu bwrw nhw lawr ar y ffordd nôl i'w gwesty y noson honno. Yn ein trafodaeth hwyr y cofio un o'r bechgyn yn dweud "os mai ofn uffern yw'r unig reswm am roi fy mywyd i Iesu Grist, dwi ddim yn siwr fod yr Iesu hwnnw werth ei ddilyn". Arhosodd y frawddeg honno gyda fi, a'm perswadio chwarter canrif yn ôl fod angen i Iesu gael ei gyflwyno fel y mae'n cael ei ddarlunio yn yr efengylau – fel cyfaill cynnes, tosturiol a chynhwysol, ac nid fel ceidwad y farn a'r tân mawr.

#### Wythnos Cymorth Cristnogol

A hithau'n tynnu at Wythnos Cymorth Cristnogol, rwy'n gynyddol ymwybodol o'r pellter sydd wedi tyfu rhwng y gymuned ehangach a'r capel yn y Gymru fach hon. Bydd holl ddarlennwyr y Tyst yn gwybod beth yw Cymorth Cristnogol. Mae'n rhan o'n DNA ni. Rwy'n gwybod eu bod yn

## Penderfyniadau

### Cyfarfodydd Blynyddol 2016

Os oes cyfundebau, eglwysi neu aelodau personol o'r Undeb sy'n dymuno cyflwyno penderfyniad i Gynhadledd y Cyfarfodydd Blynyddol yn Llanuwchllyn ym mis Mehefin/ Gorffennaf, mae gofyn i gopi o'r penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanrafon, Bro Abertawe, Abertawe SA7 0AJ, erbyn dydd Gwener, 13 Mai 2016, os gwelwch yn dda.

Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol



Geraint Rees

gweithredu cariad di-amod Cristnogol, nid y ffafriaeth sectaraidd sy'n nodweddu ambell elusen arall. Rwy'n gwybod fod Cymorth Cristnogol yn hyrwyddo ffermio cynhyrchiol a chynaliadwy, dŵr glân, masnachu tecach a chymunedau sy'n rhoi cyfle teg i ddynion a merched. Rwy'n gwybod nad yw Cymorth Cristnogol yn rhoi Beibl i bobl pan mai bwyd sydd ei angen arny'n nhw. Rwy'n gwybod nad yw Cymorth Cristnogol yn aros am ddywalltiad yr Ysbryd Glân, pan ei bod yn amlwg mai peipen ddŵr sydd ei angen. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf rwy wedi clywed mwy a mwy o'r cyhoedd, wrth i ni gasglu arian wrth eu drysau ffrynt, yn dweud na fyddan nhw yn rhoi arian yn eu hamlen fach goch i gefnogi mudiad sy'n pregethu yn lle bwydo, neu'n fwy damniol, eu bod yn amharod i roi eu harian i fudiad sydd ond yn fodlon bwydo Cristnogion. Mae'r ddau beth hyn yn amlwg yn anghywir ac yn amhriodol wrth ddisgrifio gwaith Cymorth Cristnogol, ond mae'r ffaith eu bod yn cael eu dweud (mewn anwybod-aeth pur) yn dangos yr agendor sy'n tyfu rhwng capel a chymuned.

Hoffwn obeithio y bydd ymgyrch hysbysebu Cymorth Cristnogol yn ystod y dyddiau nesaf yn argyhoeddi'r cyhoedd mai peth da fyddai eu cefnogi, a hynny gydag arddeliad byrlymus eleni. Mae llawer mwy o angen Cymorth Cristnogol hael, cariadus a di-ddogma arnom ni na chapeli sy'n heijacio priodasau ac angladdau ein cydwladwyr gan fygwth barbeciw tragwyddol i'r colledig.

#### Geraint Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Gofalaeth Eglwysi Bethel Sgeti,  
Trinity Abertawe,  
Bethania a'r Tabernacl Treforys

## Cyfarfod Sefydlu

### Y Parchg Jill-Hailey Harries, B.Th (Cym)

yn Weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist  
ar eglwysi

**BETHANIA a'r TABERNACL**  
**Sadwrn, 14 Mai am 2pm**

yn y  
**TABERNACL, TREFORYS**

Stryd Woodfield, SA6 8BR

*Croeso cynnes i bawb*

Ymholiadau: dgjohn@hotmail.co.uk

01792 773507

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
 Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
 Ffôn: 01792 795888  
 E-bost: undeb@annibynwyr.org

### Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

## Mynegiannau Newydd o'r Eglwys

Fel y nodwyd yn rhifyn yr wythnos diwethaf bu cynrychiolaeth o blith yr Annibynwyr ac eglwys Bresbyteriaidd Cymru yng Nghynhadledd Cyngor Cenhadaeth Byd Eang (CWM) yn Wittenberg, yr Almaen. Thema'r gynhadledd oedd y *Babell*, y *Deml*, a'r *Sgwâr Cyhoeddus*.

Ffyrdd gwahanol o ystyried neu ail-ddychmygu dyfodol Protestaniaeth yn Ewrop yn y blynyddoedd sydd i ddod oedd y penawdau hyn. Roedd cynnwys y gynhadledd yn ogleisiol a heriol a thro Watcyn James fydd hi i

geisio crynhoi neges a gaed gan y Parchg Ddr Michael Moynagh o Rydychen. Yn ei anerchiad ceisiodd gennym ystyried *rhai cwestiynau allweddol sy'n wynebu'r Eglwys Gristnogol yn Ewrop*.

Oddi fewn i Eglwys Loegr a'r Eglwys Fethodistaidd tyfodd symudiad sy'n ceisio hybu mynegiannau newydd o'r eglwys Gristnogol. Enw'r symudiad yw *Fresh Expressions* - enw a dyfodd allan o adroddiad gan Eglwys Loegr o'r enw *Mission Shaped Church*. Y mae'r Parchg Ddr Michael Moynagh yn gyfarwyddwr y mudiad ac yn ymgynghorydd diwinyddol iddo hefyd.



*Y Parchg Ddr  
 Michael  
 Moynagh*

I ryw raddau felly, roedd papur Parchg Ddr Michael Moynagh yn anrffod yn ceisio cyfleu rhywbeth o nawys y meddwl ysgogodd yr ymgais i geisio am 'Fynegiannau Newydd o'r Eglwys'. Dywedodd ar y cychwyn fod gan y mudiad sy'n hybu Mynegiannau Newydd o'r Eglwys apêl i bob ffurf, pob pwyslais diwinyddol a phob math o eglwysyddiaeth. Roedd yr hyn oedd yn cael ei awgrymu yn fynegiant lleol newydd, o weithgareddau y medr unrhyw gynulleidfa mewn unrhyw le ymgyrraedd atynt. Efallai mai angen am gaffi mewn pentre lle nad oedd lle i bobl gyfarfod oedd angen un gymuned. Ond mewn lleoliad arall daeth cymuned o syrffwyr at ei gilydd i greu cymuned addoli ar draeth yn Ne Orllewin Lloegr a hynny er mwyn galluogi syrffwyr eraill i glywed am y newyddion da! Ond dwi'n rhedeg yn rhy gyflym! Ceisiodd Michael Moynagh ein harwain i sylweddoli ehangder a maint y newidiadau sydd wedi lledu dros Ewrop yn y genhedlaeth diwethaf. Mae'r newidiadau sy'n cynnwys secwlaiddio, aml-ddiwylliant, aml-ffydd, a symudiad i



*Martin Luther*

ddinasoedd yn golygu bod yr Eglwys wedi cael ei gorfodi i symud 'o'r canol i'r cyrion.'

Canlyniad hynny yw bod yna fwlch enfawr wedi tyfu rhwng y gymdeithas yn ei chyfanrwydd a bywyd eglwysig. Roedd y model eglwysig a etifeddwyd gennym, meddai, yn rhagdybio dau beth. Yn gyntaf ein bod yn gymuned neu'n eglwys oedd wedi ei chynnull er mwyn addoli (wedi'r cyfan cynulleidfa yw'n gair am bobl sy'n cyd-addoli!). Yn ail, canlyniad, neu fynegiant o'r addoliad oedd ein cenhadaeth. Yn anffodus, gan ein bod wedi colli'r cyswllt gyda'r byd mawr o'n hamgylch mae'n anoddach i gynulleidfa gyflawni gweithgaredd cenhadol o gwbl. Rhagdybiaeth y model newydd o fywyd eglwysig roedd yn ei argymhell yw bod Duw am i ni fod yn gymuned genhadol. O'n cymuned a'n cydweithio dylai cenhadaeth dyfu. 'Onid dyna oedd hanfod gweinidogaeth Iesu Grist?', meddai. Ac onid yw'r model o gymuned sy'n ymestyn allan yn ganolog i'n dealltwriaeth o Dduw Trindodaidd sy'n caru'r byd? Ac onid i hynny cafodd Israel ei galw yn yr Hen Destament? Onid dyna

*parhad ar y dudalen 2*

## Canu Clod



Cynhaliwyd Cymanfa Fodern nos Sul, 17 Ebrill, 2016 yn Eglwys Caersalem, Pontyberem. Arweinydd y noson oedd Ann Davies gyda Band Caersalem yn cyfeilio ac eitemau gan Gôr y Scarlets, Band Arian Crwbin a Phlant a Phobl Ifanc Ysgol Sul Caersalem. Daeth tyrfa luosog ynghyd er mwyn moli ar gân.

### CYSTADLAETHAU'R YSGOLION SUL 2016

#### CWPAN DENMAN Rhodd Cyfundeb Lerpwl

Cywaith gweledol (poster, ffotograff, llun neu waith celf arall, yn mesur dim mwy na 4x3 troedfedd) ar y thema, 'Beibl i Bawb o Bobl y Byd'

#### TLYSAU CYFUNDEB LERPWL

Cystadlaethau siarad cyhoeddus i oed Blwyddyn 7-9 a 10-13.

Testun:

'Eglwys Crist y Ffoadur'

Y Cywaith ac/neu enwau'r cystadleuwyr ar gyfer y siarad cyhoeddus i gyrraedd

Tŷ John Penri, 5 Axis Court,  
 Parc Busnes Glanyrafon,  
 Bro Abertawe, Abertawe,  
 SA7 0AJ

erbyn

Dydd Gwener, 27 Mai  
 os gwelwch yn dda